Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant
## Amroth Court
## Caldy Close
## Gibbonsdown
## Y Barri
## Bro Morgannwg
## CF62 9DU

## Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/12/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant yn ysgol benodedig Gymraeg, sydd wedi ei lleoli yn ardal Gibbonsdown yn Y Barri, Bro Morgannwg. Mae 232 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 37 oed meithrin rhan-amser. Mae ganddi 10 dosbarth, gan gynnwys 1 dosbarth oedran cymysg.

Mae tua 20% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd yn debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae’r ysgol yn nodi bod gan tua 14% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy’n is na’r cyfartaledd cenedlaethol. Nid oes unrhyw blentyn â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Ychydig o ddisgyblion sy’n siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2009. Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant yn 2016-2017 yw £3,705. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg yw £4,576 a'r lleiafswm yw £2,773. Mae Ysgol Gymraeg Gwaun y Nant yn y 14eg safle o'r 45 ysgol gynradd ym Mro Morgannwg o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn naturiol ac yn eglur yn y ddwy iaith gan fynegi eu syniadau'n glir
- rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol ar draws y cwricwlwm
- medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn dda iawn, gan gynnwys eu gallu i ddefnyddio strategaethau rhif yn effeithiol iawn i ddatrys problemau
- ymddygiad bron bob un disgybl yn arbennig o dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol
- athrawon yn cynllunio profiadau a gweithgareddau diddorol sy'n ennyn diddordeb bron bob un disgybl yn effeithiol
- darpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gyfoethog iawn ac, o ganlyniad, mae gan bron bob disgybl falchder yn eu hiaith, gwlad a diwylliant
- gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl
- yr ysgol yn gymuned hapus a chynwysol gydag ethos eithriadol o ofalgar lle mae perthynas amlwg o barch a gofal yn bodoli rhwng disgyblion ac oedolion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ddatblygu disgyblion llwyddiannus ac uchelgeisiol mewn awyrgylch gofalgar a chynhwysol
- staff yn cefnogi'r pennaeth yn fedrus ac mae ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda
- gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach
- llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn drwyadl
- gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant sydd yn cael effaith gadarnhaol ar safonau
- yr ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid sy'n codi safonau a gwella lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella sillafu Saesneg yng nghyfnod allweddol 2

A2 Darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau mewn perthynas â’u dysgu ac i weithredu’n fwy annibynnol

A3 Adolygu blaenoriaethau’r ysgol yn fwy rheolaidd er mwyn mynd i’r afael â gwelliannau’n gyson

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio’r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y mwyafrif o ddisgyblion yn isel ar gyfer eu hoed. Er hyn, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu dadl ynglŷn ag os dylai diwrnodau ysgol fod yn hirach. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Er bod y rhan fwyaf yn dechrau'r ysgol heb fedru siarad y Gymraeg, mae eu medrau llafar yn datblygu'n effeithiol yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Nodwedd gref o'r ysgol yw gallu rhan fwyaf y disgyblion i gyfathrebu'n naturiol yn y Gymraeg yn eu gwersi ac o amgylch yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ac yn siarad yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa yn llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn glir ac yn mynegi eu syniadau'n eglur yn y ddwy iaith. Er enghraifft, maent yn trafod nodweddion erthyglau papur newydd yn fedrus gan roi rhesymau am eu hatebion.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus, gan ddefnyddio'u gwybodaeth ffonolegol i adeiladu geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Maent yn trafod cymeriadau a digwyddiadau yn eu llyfrau yn briodol. Mae eu hymwybyddiaeth o nodweddion llyfrau yn datblygu'n effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae uwch fedrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn cynyddu'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol wrth weithio ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am fywyd Walt Disney er mwyn ysgrifennu bywgraffiad.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn raenus gyda llawysgrifen o safon uchel. Mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn ffurfio llythrennau yn gywir ac yn ysgrifennu brawddegau syml i gyfleu ystyr, er enghraifft wrth ysgrifennu neges mewn potel. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddiddorol mewn ystod gynyddol o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn ysgrifennu brawddegau synhwyrol gan atalnodi'n gywir. Mae disgyblion mwy abl yn amrywio brawddegau yn grefftus er mwyn cynnal diddordeb y darllenydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn dda yn y ddwy iaith. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn ysgrifennu'n ddychmygus mewn amrywiaeth o genres, gan ddatblygu eu syniadau yn ddiddorol. Gallent drosglwyddo'u medrau yn effeithiol wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu hunangofiant plentyn o gyfnod digwyddiad Tryweryn. Fodd bynnag, ar draws cyfnod allweddol 2, nid yw safon sillafu Saesneg lleiafrif o ddisgyblion yn gadarn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhifedd llawer o'r disgyblion yn dda iawn. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol er mwyn datrys problemau a chyflawni tasgau yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth fesur uchder gwahanol flodau haul i'r centimetr agosaf. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth effeithiol iawn o strategaethau rhif. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau i ddatrys problemau mathemategol yn arbennig o dda, er enghraifft yn ystod gweithgareddau 'pos peth cyntaf'. Mae llawer yn defnyddio llinell tebygolrwydd yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn trosglwyddo'u medrau'n effeithiol iawn wrth weithio mewn pynciau eraill , er enghraifft wrth gyfrifo cyflymder cymedrig ac amrediad uchder gwahanol beiriannau sgrech ar draws y byd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn hyderus i gyflwyno eu gwaith wrth greu pamffled am wahanol wledydd y byd. Maent yn defnyddio rhaglenni trin data yn effeithiol i gyflwyno gwybodaeth ar ffurf graff. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ymchwilio i wybodaeth ar y we yn synhwyrol, gan ddefnyddio'r safleoedd mwyaf addas ar gyfer darganfod gwybodaeth. Erbyn Blwyddyn 6, maent yn defnyddio taenlenni yn fuddiol, wrth ddefnyddio fformiwla i gyfrifo elw a cholled. Ar draws yr ysgol, mae gan bron bob un disgybl ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig ac ar y deilliant uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn uwch na'r canolrif yn gyffredinol.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig dros yr un cyfnod yn gosod yr ysgol gan amlaf yn uwch na'r canolrif ymhob pwnc craidd. Mae perfformiad ar y lefelau uwch yn amrywio ac nid oes patrwm amlwg.

Nid oes patrwm o wahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad bron pob un disgybl yn arbennig o dda yn ystod gwersi ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Maent yn groesawgar, cwrtais ac yn dangos parch gwirioneddol tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn gryfder drwy'r ysgol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n bryderus.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth effeithiol o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac o wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer yn frwdfrydig i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd.

Mae'r disgyblion yn falch iawn o'u hysgol ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i ymgymryd â chyfrifoldebau amrywiol. Mae'r cyngor ysgol a'r eco bwyllgor yn chwarae rôl flaengar ym mywyd yr ysgol. Mae aelodau yn casglu barnau disgyblion eraill yn rheolaidd ac yn gweithredu ar y canfyddiadau. Er enghraifft, maent yn gwneud

penderfyniadau gwerthfawr am yr ardal allanol sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth effeithiol o fentergarwch drwy’r wythnos fusnes a thrwy redeg siop goffi Masnach Deg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb a chymhelliant ac maent yn cymryd gofal a balchder yn eu gwaith. Maent yn cydweithio ag eraill ac yn dyfalbarhau gyda thasgau yn dda. Er hyn, nid yw gallu’r disgyblion i weithio’n annibynnol nac i wneud dewisiadau mewn perthynas â’u gwaith wedi datblygu’n ddigon cadarn.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi gosod yr ysgol yn uwch na’r canolrif o gymharu ag ysgolion eraill. Mae bron pob un disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion sydd yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau a gweithgareddau gwerthfawr sy’n ennyn diddordeb bron bob un disgybl yn effeithiol. Mae cynlluniau gwaith yn adeiladu ar wybodaeth a dealltwriaeth bresennol disgyblion yn dda ac yn dangos dilyniant a pharhad clir. Mae’r ystod eang o brofiadau ychwanegol, sy’n cynnwys ymweliadau addysgol a chyfleoedd i ymuno â chlybiau ar ôl ysgol, yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn effeithiol iawn. Er enghraifft, maent yn trefnu ymweliadau â mannau addoli i gyfoethogi eu gwaith addysg grefyddol.

Mae’r ysgol wedi ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn effeithiol yn ei chynlluniau gwaith. Mae cynlluniau manwl yn sicrhau ystod eang o weithgareddau buddiol i ddatblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm. Mae ansawdd uchel y ddarpariaeth ar gyfer datblygu rhifedd, llafaredd ac ysgrifennu yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw’r gweithgareddau mentergarwch sydd yn atgyfnerthu medrau ariannol a datrys problemau disgyblion yn llwyddiannus.

Mae ddarpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg a’r dimensiwn Cymreig mewn amrywiol gyd-destunau yn gyfoethog iawn. Mae ymweliadau gan artistiaid ac awduron o Gymru yn ychwanegu at falchder disgyblion o’u hiaith, gwlad a diwylliant. Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r iaith Gymraeg ymysg rhieni yn effeithiol drwy gynnal gwersi iaith ac wrth osod heriau iddynt i wneud defnydd achlysurol o’r Gymraeg yn ystod wythnosau Cymreig. Mae hyn yn cyfrannu at godi statws yr iaith ymysg holl gymuned yr ysgol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i gryfhau gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang drwy wersi a digwyddiadau arbennig. Er enghraifft, wrth astudio gwledydd amrywiol mewn wythnosau rhyngwladol, mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn datblygu’n llwyddiannus.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Un o gryfderau'r addysgu yw'r berthynas waith gofalgar sydd yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion. Gwneir defnydd effeithiol o gynorthwyon dysgu i gefnogi'r dysgu. Mae staff yn rheoli ymddygiad yn fedrus a chyda sensitifrwydd. O ganlyniad, maent yn llwyddo creu awyrgylch gwaith diogel sy'n galluogi disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Mae bron bob un o'r athrawon yn modelu iaith gywir a chyfoethog. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gywirdeb iaith disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio gwersi ysgogol sydd yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn creu gweithgareddau sydd yn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio digon o gyfleoedd bob tro i ddisgyblion wneud dewisiadau dros eu dysgu eu hunain, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn cyfyngu ar allu disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigonol. Ar adegau, mae gorddefnydd o daflenni gwaith ar draws yr ysgol yn llesteirio cynnydd ychydig o ddisgyblion.

Mae athrawon yn rhannu nodau'r wers a meini prawf llwyddiant yn gyson. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn annog disgyblion i bennu eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn deall beth sydd angen ei wneud i lwyddo yn eu gwaith. Mewn tua hanner o'r dosbarthiadau, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn eu herio'n gyson. Mae staff yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion ar lafar ac wrth farcio eu gwaith. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod beth sydd yn dda yn eu gwaith a beth sydd angen iddynt ei wella.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trwyadl ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i ddarparu cymorth ychwanegol yn ôl yr angen. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o asesiadau yn fuddiol i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Mae adroddiadau i rieni yn rhoi gwybodaeth fuddiol i rieni am gynnydd eu plant, ynghyd â thargedau defnyddiol ar gyfer gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle rhoddir blaenoriaeth uchel i les disgyblion. Mae'r staff yn creu amgylchedd cynnes a chroesawgar. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddiwallu anghenion bron bob disgybl. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion yn fuddiol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd uchel sy'n helpu'r disgyblion i ddangos parch at eraill. Mae'r sesiynau cyd-addoli ysgogol yn cyfrannu'n sylweddol tuag at ddatblygiad ysbrydol a phersonol disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Caiff manteision byw yn iach a datblygu iechyd corfforol y disgyblion eu hyrwyddo'n llwyddiannus ar draws y cwricwlwm ac mewn nifer o weithgareddau allgyrsiol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, fel canu mewn cartrefi'r henoed yn y gymuned yn flynyddol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o arbenigeddau asiantaethau ac elusennau eraill i alluogi cefnogi lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i ddisgyblion yn dda. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i adnabod anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn gynnar. Maent yn defnyddio ystod eang o strategaethau effeithiol i fodloni eu hanghenion. Mae cynlluniau addysg unigol yn nodi targedau clir a gweithgareddau penodol ar gyfer sicrhau cynnydd. Mae hyn yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da ac i ymdopi'n llwyddiannus â gofynion y cwricwlwm.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol Gwaun y Nant yn gymuned hapus a chynhwysol gydag ethos eithriadol o ofalgar. Mae'r perthynas amlwg o barch a gofal sy'n bodoli rhwng disgyblion ac oedolion yn gryfder yn yr ysgol. Mae hyn yn arwain at ymddygiad arbennig o dda gan bron bob un disgybl, ynghyd â chreu cymuned lle mae pob plentyn yn gallu llwyddo o fewn awyrgylch dysgu diogel a chynhaliol. Dengys disgyblion anwyldeb a charedigrwydd amlwg tuag at oedolion a'u cyfoedion. Enghraifft effeithiol iawn o hyn yw yn ystod amseroedd egwyl, lle mae'r 'Bydis Buarth' yn gofalu am ddisgyblion eraill ar iard yr ysgol.

Nodwedd ragorol o ethos yr ysgol yw'r ffocws cryf ar ddatblygu gwerthoedd a Chymreictod ymysg y disgyblion. Mae'r gwaith hwn yn treiddio drwy fywyd dyddiol yr ysgol, ac mae disgyblion yn ymdrechu'n galed i arddangos y rhain yn eu hymddygiad a gweithredoedd bob dydd. Er enghraifft, mae bron bob disgybl yn trafod eu hawliau fel plant yn aeddfed, gan gyfeirio at werthoedd fel gonestrwydd, caredigrwydd a pharch. Dangosant y rhain yn gyson wrth gydweithio a chyd-chwarae yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd chwarae. Mae ganddynt ymwybyddiaeth arbennig o dda rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir ac yn cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd.

Mae'r ysgol yn gosod pwyslais eithriadol o uchel ar gydraddoldeb, amrywiaeth a pharch. Mae athrawon yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r rhain yn eu gwaith ac wrth ddarparu'r cwricwlwm i ddisgyblion. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r gwaith gyda chwmni adeiladu sydd wedi herio stereoteipiau ynglŷn â gweithio mewn diwydiant. Mae'r ysgol yn hollol gynhwysol a chaiff pob disgybl ei drin yn gyfartal gan sicrhau mynediad llawn i'r holl weithgareddau.

Mae arddangosfeydd symbylus a deniadol yn dathlu gwaith y disgyblion yn greadigol iawn. Mae hyn yn ennyn parch a balchder disgyblion yn eu gwaith.

Mae adeilad yr ysgol yn lân ac yn raenus tu hwnt. Mae'n lliwgar ac yn cynnig awyrgylch dysgu ysgogol i ddisgyblion. Mae gan yr ysgol gyflenwad da iawn o offer. Defnyddir adnoddau'r ysgol yn llwyddiannus i baratoi gweithgareddau diddorol a symbylus ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu'r ardaloedd allanol i greu amgylchedd ddysgu o safon uchel. Mae staff yn cynllunio gweithgareddau gwerthfawr ar gyfer yr ardal hon. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r defnydd o'r ardal helyg a'r pwll dŵr ar gyfer gwersi gwyddoniaeth. Mae hyn yn darparu profiadau byw i ddisgyblion ac mae safonau gwyddoniaeth yn yr ysgol yn dda. Mae staff y Cyfnod Sylfaen yn cynllunio gweithgareddau buddiol er mwyn datblygu medrau disgyblion yn yr awyr agored.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'r weledigaeth hon yn ffocysu'n gryf ar ddatblygu disgyblion llwyddiannus ac uchelgeisiol mewn awyrgylch gofalgar a chynhwysol. Mae wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae'r staff yn cefnogi'r pennaeth yn fedrus ac mae ethos o gydweithio fel tîm yn bodoli i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda. Mae hyn yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau gwella. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u rolau wrth gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

Mae gan y staff ddisgrifiadau swydd manwl sy'n cysylltu'n dda â'u cyfrifoldebau unigol. Mae hyn yn eu galluogi i gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol o waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn ymgymryd â rôl weithredol wrth ddatblygu'r ysgol ymhellach. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ffordd y mae arweinwyr wedi datblygu rhifedd ar draws yr ysgol. Trwy hyfforddiant penodol a monitro gofalus, maent yn sicrhau darpariaeth rhifedd o safon uchel. O ganlyniad, mae medrau rhifedd a datrys problemau y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol ac maent yn cynnig cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus. Mae'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd wedi eu hymgorffori'n llawn yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu'n llwyddiannus i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddisgyblion bregus. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cydweithio'n effeithiol gyda'r arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad a systemau'r ysgol. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, ac ymweliadau cyson â'r ysgol, maent yn herio'r ysgol yn llwyddiannus i gynnal safonau ac i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu, sy'n canolbwyntio'n fuddiol ar gasglu a defnyddio tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau. Mae dadansoddiad pwrpasol o ddata, gwirio cynlluniau gwaith, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi i gyd yn rhan annatod o'r broses. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gywir a chadarn o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Er hyn, nid yw arweinwyr bob tro yn adolygu blaenoriaethau'r ysgol yn ddigon rheolaidd er mwyn mynd i'r afael â gwelliannau'n gyson.

Mae arweinwyr yn cynnwys safbwynt disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn rheolaidd fel rhan o'r gweithdrefnau hunanarfarnu. Er enghraifft, ar ôl ymgynghori â fforwm rhieni, mae'r ysgol wedi addasu gweithdrefnau'r ysgol ynglŷn â delio ag ymddygiad. O ganlyniad, mae bron bob un disgybl yn ymddwyn yn ardderchog yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn glir ac yn fanwl gyda nifer rhesymol o flaenoriaethau priodol. Mae'n cysylltu'n dda â deilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu a gofynion blaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu yn nodi cyfrifoldebau gweithredu a chyfrifoldebau monitro a gwerthuso yn glir. Mae pob cynllun yn nodi meini prawf llwyddiant mesuradwy ac wedi ei ariannu'n graff. Mae arweinwyr yn gwerthuso cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddiant yn effeithiol. Mae'r camau gweithredu eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion, er enghraifft wrth wella safonau rhifedd ar draws yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n hynod effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion ac yn ymestyn eu profiadau dysgu'n effeithiol.

Mae cydweithio rhwng yr ysgol a nifer o ysgolion eraill yn yr ardal yn nodwedd ragorol o waith yr ysgol. Mae'r ysgol yn flaenllaw yn y broses o arwain a chydweithio gydag ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg eraill i gyd-gynllunio a datblygu adnoddau i hybu medrau disgyblion. Er enghraifft, mae'r gwaith ar ddatblygu gwaith rhesymu mewn rhifedd yn cael dylanwad cryf iawn ar safon yr addysgu. Mae hyn wedi cyfrannu'n effeithiol iawn at godi safonau rhifedd ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn. Mae'r ysgol wedi rhannu'r gwaith hwn gydag ysgolion eraill drwy gynhadledd o fewn y consortiwm.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus iawn gyda'r ysgol uwchradd ac ysgolion y clwstwr i ddarparu gweithgareddau ysgogol sydd yn cyfoethogi medrau Cymraeg disgyblion mwy abl a thalentog yn effeithiol iawn. Er enghraifft, mae'r disgyblion wedi ysgrifennu rhaglen sydd wedi ei darlledu ar y radio. Mae hyn wedi cyfrannu'n sylweddol at fedrau llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae gweithio ar y cyd â'r ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo'n llwyddiannus i Flwyddyn 7. Mae'r trefniadau'n cynnwys ymweliadau gwerthfawr ac ystod amrywiol o weithgareddau cwricwlaidd a bugeiliol buddiol.

Mae gwaith cymedroli a safoni yn y clwstwr yn effeithiol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys athrawon o bob blwyddyn ysgol. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb yn yr asesu ac ymwybyddiaeth gadarn athrawon o ofynion deilliannau a lefelau.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol iawn â rhieni. Mae cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni'n barhaol. Maent yn cael cyfleoedd gwerthfawr iawn i chwarae rhan uniongyrchol yng ngwaith ysgol eu plant drwy weithgareddau dysgu ar y cyd. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ymweliad â 'sŵ'r dosbarth derbyn' i ddysgu am fywyd gwahanol anifeiliaid. Mae'r ysgol yn cefnogi rhieni yn effeithiol iawn i sicrhau'r cyflawniad gorau posibl i'w plant. Drwy waith 'Ffrindiau Gwaun y Nant', mae'r ysgol yn rhoi cefnogaeth gryf ac arweiniad clir i rieni ar sut i gefnogi eu plant gartref. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar ymddygiad, lles a safonau eu plant.

Mae cysylltiadau gwerthfawr yn bodoli gyda'r lleoliadau a'r asiantaethau sydd yn darparu gofal i blant cyn iddynt gychwyn yn yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn wrth gychwyn yn y dosbarth meithrin.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol, gan gynnwys rhai cysylltiadau effeithiol gyda busnesau lleol, yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn yr ysgol, ac yn ehangu profiadau disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae partneriaeth gyda chwmni adeiladu yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith a busnes yn effeithiol. Defnyddir y gwaith hwn yn llwyddiannus i ehangu gorwelion disgyblion ar gyfer y dyfodol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer priodol o athrawon a staff cynorthwyol sydd â chymwysterau perthnasol i addysgu'r cwricwlwm. Mae cynorthwywyr dysgu yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol. Mae amrediad da iawn o adnoddau yn yr ysgol sy'n cael eu rheoli'n effeithiol i sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion i bob agwedd o'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar gyfer lleihau baich gwaith athrawon. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu cynnydd disgyblion.

Mae pob aelod o staff yn elwa o hyfforddiant buddiol sy'n deillio o anghenion a blaenoriaethau'r ysgol. Er enghraifft, mae hyfforddiant ar asesu ar gyfer dysgu wedi gwella dealltwriaeth athrawon o sut i weithredu'r strategaethau hyn yn eu dosbarthiadau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu ac yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu gwaith. Mae'r gwaith hwn wedi cyfrannu at y gwelliant mewn safonau, yn enwedig ar y lefelau uwch.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r gyllideb ac yn monitro effaith gwariant yn drylwyr. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â'i chynlluniau ar gyfer gwelliant.

Gwna arweinwyr ddefnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion, er enghraifft trwy gyflogi cynorthwywraig i weithio gyda disgyblion i wella eu medrau personol a chymdeithasol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a hunanddelwedd disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth yn yr ysgol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6732179 - YSGOL GYMRAEG GWAUN Y NANT**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 237 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.1 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 26 | 24 | 27 | 25 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 84.6 | 95.8 | 92.6 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 1 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 24 | 27 | 25 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.5 | 95.8 | 96.3 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.5 | 29.2 | 44.4 | 52.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 1 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 24 | 27 | 25 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.5 | 95.8 | 96.3 | 96.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 15.4 | 29.2 | 40.7 | 48.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 1 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 24 | 27 | 25 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 96.3 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 1 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 11.5 | 20.8 | 70.4 | 84.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6732179 - YSGOL GYMRAEG GWAUN Y NANT**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 237 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.1 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 16 | 32 | 18 | 20 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 81.3 | 96.9 | 94.4 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 32 | 18 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.3 | 96.9 | 94.4 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 12.5 | 43.8 | 33.3 | 45.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 32 | 18 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 81.3 | 96.9 | 94.4 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 12.5 | 37.5 | 22.2 | 45.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 32 | 18 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.5 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.0 | 40.6 | 38.9 | 45.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 32 | 18 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.8 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 12.5 | 43.8 | 38.9 | 45.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 98 | 96<br>98%<br>98% | 2<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 88<br>92%<br>92% | 8<br>8%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 98 | 90<br>92%<br>97% | 8<br>8%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 98 | 96<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 98 | 96<br>98%<br>96% | 2<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 97 | 86<br>89%<br>96% | 11<br>11%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 97 | 94<br>97%<br>99% | 3<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 97 | 91<br>94%<br>98% | 6<br>6%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 97 | 91<br>94%<br>91% | 6<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 98 | 97<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 97 | 65<br>67%<br>77% | 32<br>33%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 97 | 80<br>82%<br>84% | 17<br>18%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 26 | 14 | 11 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 54% | 42% | 4% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 18 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 19 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 24 | 14 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 26 | 7 | 18 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 27% | 69% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 25 | 15 | 9 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 60% | 36% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 16 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 24 | 12 | 10 | 1 | 1 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 42% | 4% | 4% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 25 | 11 | 11 | 1 | 2 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 44% | 44% | 4% | 8% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 12 | 13 | 0 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 46% | 50% | 0% | 4% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 26 | 12 | 13 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 46% | 50% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 18 | 8 | 8 | 2 | 0 | 8 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 44% | 44% | 11% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 26 | 8 | 16 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 31% | 62% | 8% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 26 | 15 | 10 | 0 | 1 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 58% | 38% | 0% | 4% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 23 | 6 | 16 | 1 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 26% | 70% | 4% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 11 | 14 | 0 | 1 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 42% | 54% | 0% | 4% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 13 | 5 | 7 | 1 | 0 | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 38% | 54% | 8% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 22 | 6 | 14 | 1 | 1 | 4 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 27% | 64% | 5% | 5% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 15 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 58% | 38% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jonathan Cooper | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Kevin Neil Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhydian Lloyd | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.